Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 9. Rhif 1.] IONAWR, 1909. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Ar Edyn Ffydd.
Nodion y Mis. Oddiar y Twr.
Coll Gwynfa Milwn.
Parch. J. Islan Jones, B.A.
Bychanu Pechod. Sylwadau ar Bechod.
Llythyr y Cranc.
Moses a'r Pum' Llyfr.
Gwili.
Congl yr Awen.
Priodas. Marwgofion.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD

Golygwyr—

T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul, a SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s 6d y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

Mrs. J., Pentwyn Inn; E.J., New Tredegar; T.M., Abertillery; D.T., Lerpwl; S.D., Shipley; D.D., Gwardafolog; T.T., Rock Mill; Dr. D.J.D., Glasgow; W.S.J., Rhydychen; E.D., Llanbedr; D.D., Gorseinon; J.P., St. Clears; E.L., Bedlinog; S.D., Coedpark; D.J., Clydach Vale; S.H., Pontbrenllwyd; R.P., Great Moleston; G.J., Castell Pencarreg; J.L., Dowlais; Mrs. J., Fronfelen; J.D., Llundain; T.A.J., North Dandalup; C.E., Merthyr; D.J.D., Erieville, U.D.A.; E.J., Abergorlech; D.J., Tydwgi; D.M.J., Cwrtnewydd; H.J., Nantymoel; Mrs. L., Penlan, Llanarth; D.H.S., Mountain Ash; Parch. J.W., Panttieg; D.J.G., Ferndale; J.D., Llanon; T.D., Llandyssul; Mrs. R., Yseguborfawr; J.J., Aberaman; Mrs. R., Penttegwenlais; Mrs. M.A.D., Llanarth; D.R.O., Garnant; J.P.O., Llundain; D.D., Charters Towers, Australia; J.D.D., Cwmgwrach; D.M.D., Aberaman; Mrs. D.J.T., Cribyn; J.M., Llanrwst; D.J., Rhydfene; Mrs. E., Esgerwenfawr; E.S.E., Caerdydd; J.T., Lerpwl; H.H., Birmingham; J.M., Blaengwynfi; R.L., Merthyr.

Yn awr yn barod, Argraffiad Newydd o **MYFYRDOD MEWN MYNWENT** gan **DAVIS CASTELLHYWEI.**, wedi ei olygu, a chyda Nodiadau gan **SARNICOL.** Pris 2g., trwy y Post, 2½g.

Archebion i'w hanfon i Swyddfa'r YMOFYNYDD, Llandyssul.

ROBIN THE NEW STARCH
Reckitt's Blue.
ZEBRA GRATE POLISH.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . . . Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] IONAWR, 1909. [CYF. IX. RHIF I.

AR EDYN FFYDD.

CALAN 1909.

FOREU dydd Calan
Mae'r eira fel ewyn
Yn toddi dan gusan
Gwynt y Gorllewin.

Bu'r ddaear ddyddiau
Ag hugan dew
Yn dyn wrth ei lwynau
Gan rwymau rhew.

Collodd aderyn
Yn llwyr ei stôr—
Mor ddof y bu Robyn
Wrth fy nôr.

Ond goleu heulwen
O'r nef a ddaeth,
A rhyddid drachefn
I'r ddaear gaeth.

Boreu dydd Calan
Cwyd haul yn uwch ;
A gwerth yn lluwch
Am ei wenau arian.

Disgyn o'r cymyl
Y perlau gwlaw ;
A phelydr ddaw
O'r haul yn ymyl.

Mi welaf wawr
Rhyw Ddwyfol Galan,
Teimlo ei thrydan
Wna daear lawr.

Er dued y cymyl
Dihydlant berlau ;
Dadguddiant olau
Yr haul yn ymyl.

Mae'r dydd ar ei droad,
Mae'r nôs yn byrhau ;
Ac wele'n neshau
Ryw Ddwyfol ddeffroad.

Tyred, ddeheuwynt,
Hed uwch teyrnasoedd,
Deffro y bobloedd
Anadla arnynt.

Fe ddaeth yr amser,
O ddyddiau dedwydd !
Goleua'r gwledydd.
O Haul Cyfiawnder.

Diflaned gormes
A'i greulon guwch ;
Fel y derfydd lluwch
O dan yr heuldes.

Rhyded y cledd,
Pyled y bidog,
Pob llu banerog
Dry'n fyddin hedd.

Gwel yn dynesu
Ddiwrnod rhyfedd
Pan ddel i deyrnasu
Dywysog Tangnefedd.

NODION Y MIS.

YR ydym yn dymuno Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Yr Ymofynydd. Hyderwn y rhydd pawb o honynt ar restr eu "penderfyniadau" y bwriad o ledaenu cylchrediad ein misolyn bychan.

Byddwn yn dra diolchgar am danysgrifiadau i'n cynorthwyo i dalu am y copiau hyny o'r Ymofynydd a anfonir yn rhydd i'r gwahanol lyfrgelloedd, &c. Y mae llawer o'r darllenwyr wedi cynorthwyo gyda chyfraniadau hael yn barod, ac yr ydym yn wir ddiolchgar iddynt.

Drwg genym fod damwain anorfod wedi goddiweddyd un o'r Golygwyr ac wedi peri i ni aros ychydig amser yn hwy nag arfer cyn ymddangos y mis hwn.

Y mae'r Dduwinyddiaeth Newydd yn graddol lefeinio ardaloedd Ceredigion. Pregethir hi o'r gwahanol bwlpudau anghydffurfiol, a ffurfia ran o luniaeth ysbrydol pobl y wlad heb iddynt ddrwgdybio ei bod yn bresenol yn y bregeth. Oes, y mae llawer mewn *enw*, er y dywed Shakespeare yn wahanol.

Pe bai'r pregethwyr yn gwneud ond enwi Campbell, buasai'n ddigon i yru'r eglwys iawnffyddol yn fflam dân, a buasai sôn am Dduwidyddiaeth Newydd yn rhai o'r capeli yn ddigon i beri daear-gryn foesol—neu anfoesol—o fewn y muriau—a thu allan.

Yn y cyfnodolyn Americanaidd, "*The Unitarian*" am y mis diweddaf y mae gan y Parch. John Haynes Holmes bapur maith a nerthol ar "Undodiaeth a'r Cwestiwn Cymdeithasol." Nid yw Cristionogaeth erioed wedi ceisio cario ei dylanwad yn mhellach na'r dyn unigol, medd ef. Planu Teyrnas Dduw yn mynwes dyn, creu cymeriad, a dylanwad ar ei gyflwr ysbrydol—dyna yw amcan yr eglwysi wedi bod drwy yr oesau—a dyna mae Undodiaeth wedi geisio ei wneud hefyd, gan adael cymdeithas fel cyfangorff yn llonydd.

Y mae Cristionogaeth wedi bod yn ceisio gan ddyn ymfoddloni ar sefyllfa pethau fel y maent, ufuddhau i lywodraeth y byd hwn, talu'r eiddo Cesar i Cesar, a byw y bywyd uwch yn y deyrnas newydd-grëedig o fewn ei fynwes ei hunan.

Ond gwaedda'r pregethwr hyawdl hwn am i'r eglwys Undodaidd gymeryd ei rhan nid yn unig yn nyrchafiad y person unigol, ond hefyd yn mhuredigaeth cymdeithas. Y mae'r bobl yn gwingo dan fflengyll Cyfalaf, y mae'r werin yn cael ei malu yn melinau y miliwnwr! Anmhosibl i'r eglwys wneud ei gwaith o ddyrchafu'r *un*, tra mae'r *llawer* yn gruddfan dan groes y gorthrymwyr. Cyn achub dyn y mae'n rhaid achub cymdeithas yn gyntaf.

Trodd Luther yn erbyn gwrthryfel y bobl yn ei amser ef, er cymaint eu dioddefaint dan ormes y cyfoethogion. Yr oedd yr eglwys o blaid aristocratiaid pwdr Ffrainc yn amser y Chwyldroad Ffrengig. Ychydig wnaeth yr eglwysi dros ryddhad y caethion yn America. Yn Rwsia heddyw y mae grym yr Eglwys Roegaidd o blaid yr uchelwyr sy'n gormesu'r bobl. Llwyr fethiant yw gwaith yr eglwysi yn ceisio achub y byd tra phery yr agwedd hon ar bethan. Cyn y delo iechydwriaeth ar y ddaear rhaid yw i'r Eglwys ymrestru yn myddinoedd y bobl, a gwaeddi'n groch yn erbyn gormes, trais a gorthrwm.

Y mae'r eglwys yn colli ei dylanwad drwy beidio taflu ei hun i rengau Sosialaeth, anorchfygol fyddin y dyfodol. Dyna swm a sylwedd papur y pregethwr hyawdl hwn. Efallai y symbyla hyn o nodiadau rywun i'w ddarllen yn ei gyfander.

ODDIAR Y TWR.

Y mae ein darllenwyr, yn ddiau, y rhan fwyaf o honynt o leiaf, yn gyfarwydd â dywediad tebyg i hyn—fod yr hyn sydd heresi heddyw yn dod yn iawnffyddiaeth yfory. Fel rheol, gan yr ychydig y coleddir syniadau hereticaidd, a syniadau iawnffyddol gan y lluaws.

Ac wrth y dywediad uchod golygir fod syniadau a ymddangosent unwaith yn wirioneddau i'r ychydig yn unig yn dod yn raddol yn wirioneddau i'r lluaws. Dyna ydyw

Ystyr y gair Iawnffyddiaeth

fel y defnyddir ef yn gyffredin—nid cyfundraeth o syniadau iawn neu wir (fel y dylai olygu yn ol ystyr wreiddiol y gair), ond cyfundraeth o syniadau a goleddir gan nifer fawr o bobl. Heresi oedd Cristionogaeth ar y dechreu—i'r Iuddew iawnffyddol. Y mae'r gair heresi wedi ei gysylltu am ryw gymaint o amser â bron pob cyfundraeth feddyliol Gristionogol yn ystod y deunaw canrif diweddaf, Yn yr un goleu yr edrychid am lawer o flynyddau ar yr hyn a adnabyddir heddyw fel Darwiniaeth. Yn raddol, fodd bynag, daeth pob un—neu, yn fwy cywir, daeth y rhan fwyaf o'r cyfundraethau hyn yn boblogaidd, ac mewn canlyniad yn iawnffyddol. Y mae pob cyfundraeth feddyliol yn agored i gyfnewidiadau parhaus yn herwydd y wybodaeth well ar bynciau mawr bywyd—Duw, dyn, a thynged dyn—wawria ar y meddwl dynol. Heresi y gelwir pob syniad neu fudiad meddyliol newydd gan eu gwrthwynebwyr; ond medd pob syniad neu fudiad meddyliol newydd duedd i ddod, yn raddol, yn iawnffyddiaeth. Ni chawd gwell engraifft o wirionedd y gosodiad hwn er's cryn amser nag a geir yn natblygiadau diweddaf yr hyn a elwir yn gyffredin yn

Dduwinyddiaeth Newydd.

Fel yn achos pob mudiad newydd cyffelyb, gwneid y mudiad hwn i fyny ar ddechreu ei yrfa o unigolion, rhwng y rhai na fodolai yr un rhwymyn undeb rhagor na'r awydd am wybod y gwir. Yr oedd pob un at ei ryddid i gredu fel y gallai, ac i draethu ei gred yn y modd y barnai efe yn oreu. Gochelent gredoau. Gallent fethu cydweled; ond beth am hyny? Dim ond i'r ymchwil am y gwirionedd yn unig y tyngent hwy lŵ o ffyddlondeb. Mwynhaent ryddid perffaith. Ymffrostiai rhai o honynt yn y rhyddid a fwynhaent, fel pe fod rhyddid mewn crefydd yn beth hollol newydd, na chlywyd am dano nes i'r duwinyddion newydd ei ddarganfod. Ambell waith, wrth syllu "oddiar y twr" ar yr hyn elai yn mlaen yn y byd trystfawr odditanaf, fe'm tueddid i rwbio fy llygaid, gan feddwl nad oedd pethau yn hollol fel yr ymddangosent, ac mai breuddwyd gwâg oedd y gred a goleddwn fod

Rhyddid mewn Crefydd yn bodoli

yn mhell cyn i un duwinydd newydd gael ei eni. Arferwn feddwl fod rhyddid perffaith yn ffynu yn ein plith ni—fod pob gweinidog yn mwynhau rhyddid cyflawn i draethu'r gwirionedd yn ol ei ddeall ef o hono, ac fod pob aelod yn mwynhau yr un rhyddid i dderbyn neu

i wrthod yr hyn a glywai. Ond nid oedd y fath gred ond ffug yn ol rhai duwinyddion newydd. Trwyddynt hwy y daeth rhyddid i'w eiddo ei hun. Ac eto ni fu genyf un adeg ffydd gref yn niledrithedd yr honiad hwn. Tybiwn er's cryn amser fy mod yn gweled arwyddion fod hyd yn nod rhai o'r duwinyddion newydd yn dechreu parotoi i osod i fyny nod terfyn i'r dduwinyddiaeth newydd, tu hwnt i'r hwn nad diogel i neb anturio. A gwelaf erbyn hyn fy mod yn iawn. Gwneir ymdrechion pybyr gan amryw i arafu'r cynydd, ac i gywir ddarlunio eu safle. Yr enw ddaw i feddwl y darllenydd yn union y sonir am y dduwinyddiaeth newydd yw eiddo

Mr. Campbell.

Nid efe oedd y duwinydd newydd cyntaf. Gellir olrhain y mudiad yn mhell tu ol iddo ef—am gryn bellder i'r ganrif ddiweddaf. Ond ar gyfrif ei safle fel gweinidog un o'r cynulleidfaoedd Cristionogol mwyaf adnabyddus yn yr holl fyd, a hefyd ar gyfrif y ffaith ei fod wedi ymdaflu i'r mudiad gyda'r fath yni a hunangysegriad, y mae enw Mr. Campbell a'r enw duwinyddiaeth newydd wedi dod erbyn hyn yn eiriau cyd-gyfnewidiol. Y mae'r enw Campbell ar unwaith yn ein hadgofio o fodolaeth y dduwinyddiaeth newydd, a'r enw duwinyddiaeth newydd yn ein hadgofio o fodolaeth Mr. Campbell. Os am eglurhad ar unrhyw fater neu bwynt perthynol i'r dduwinyddiaeth newydd, neu os am gael syniad cywir o honi yn ei chrynswth, trown yn reddfol bron at ei lyfrau a'i ysgrifeniadau ef. Anfynych iawn y daw enwau arweinwyr ereill y mudiad i'n meddwl. Ac nid yw o bwys mawr genym beth yw eu barnau hwy ar y materion y dymunwn gael eglurhâd arnynt. Mai yn y goleu hwn yr edrychir gan y mwyafrif ar y cysylltiad rhwng Mr. Campbell a'r dduwinyddiaeth newydd sydd eglur oddiwrth frawddeg neu ychydig frawddegau mewn anerchiad a draddodwyd yn ddiweddar gan y Prifathraw Garvie. Wrth gyfeirio at anerchiad un o arweinwyr y dduwinyddiaeth newydd dywedodd: "Gyda phob dyledus barch iddo ni saif am y dduwinyddiaeth newydd fel y saif Mr. Campbell. Y mae gan Mr. Campbell gant o ddarllenwyr lle nad oes ganddo ef ond un." Perai hyn i rai o'r arweinwyr eraill i

Anesmwytho yn eu Tresi.

Cuddid hwy o olwg y cyhoedd bron yn yn llwyr gan bersonoliaeth apostol mawr y dduwinyddiaeth newydd. "Yr oeddem ni yn dduwinyddion newydd," meddent, "cyn i Mr. Campbell erioed freuddwydio am dani. O ganlyniad, y ni ddylai fod y safon i farnu beth yw'r dduwinyddiaeth newydd, ac nid Mr. Campbell. Yn ol ein safon ni y mae Mr. Campbell eisoes wedi myned tu hwnt i'r terfynau —bron i ymyl corsydd ansicr oll-dduwiaeth." Nid dyfyniad llythyrenol yw'r uchod o ysgrifeniadau un o'r arweinwyr hyn; ond cynrychiolant—yn dra chywir fel y credaf—sylwedd yr hyn a ysgrifen-

wyd gan amryw o honynt yn ystod y misoedd diweddaf. Felly, y mae adran o fyddin y duwinyddion newydd eisoes yn dechreu llefain—

HYD YMA A DIM YN MHELLACH,

a'r dduwinyddiaeth newydd, fel y darlunir hi ganddynt hwy, ar y ffordd i ddyfod yn gredo mwy neu lai sefydlog. Nid oes dim yn hynod yn hyn i unrhyw un sydd wedi talu ychydig sylw i hanes, cyfundraethau meddyliol a mudiadau crefyddol a chymdeithasol. Tynged pob cyfundraeth feddyliol a mudiad crefyddol neu gymdeithasol yw bod yn wrthrychau dylanwadau gwahanol iawn eu heffaith—dylanwadau ydynt, ar un llaw, yn tueddu i uno ac adeiladu, ac ar y llaw arall, yn tueddu i wahanu a thynu i lawr. Nis gellid disgwyl iddi fod yn wahanol yn hanes y dduwinyddiaeth newydd. Am dymhor bu dylanwadau o wahanol fathau, yn enwedig y driniaeth arw roddid i bob duwinydd newydd gan yr hen dduwinyddion, yn tueddu i'w gwneud yn fyddin unol, er nad lluosog. Ond yn awr, pan y mae y rhengoedd yn cynyddu, y mudiad yn dod yn fwy poblogaidd, a'r feirniadaeth o hono yn llai miniog, gwelwn ddylanwadau a'u tuedd i ranu a pharlysu mudiad a gychwynwyd gyda rhagolygon mor addawol. Drwg gan bob carwr cynydd mewn syniadaeth grefyddol a duwinyddol am hyn. Oherwydd yr oedd yn fudiad yn yr iawn gyfeiriad, gydag addewidion am bethau mawr. Nid oedd yn foddlongar hollol efallai. Hytrach yn niwlog oedd ei safle. Ond bob yn dipyn, nid oes amheuaeth nad elai'r niwl heibio, gan adael awyr las, glir, ar ei ol.

Y GWYLIEDYDD.

CADWYN GOFFA

AR OL Y DIWEDDAR CADBEN DAVIES, RHYDOWENFACH.

Y difyr Gadben Dafydd,—yn ei fedd ;
Blin i fil y newydd ;
Ein hen dad ar doriad dydd,
I lanw'r afon lonydd.

Gyda llwydd am hir flwyddi,—ar y
Mewn llong, yn llyw arni ; [mor,
Hefyd gawd yn frawd o fri,
Ar luniaidd fôr haelioni.

Byw yw'r sôn o'i bur wasanaeth—i
Byw, er iachawdwriaeth ; [bob
Yn ffyrdd clod gwir nod a wnaeth,
Yn dadol i Undodiaeth.

Trebanos.

Dyn a'i sêl yn dân o sylwedd,—a'i
I gyd am wirionedd ; [gais
Gwys o hyd, a geisiai hedd,
I nofio i dangnefedd.

Gyfaill glwys, ffrynd eglwysi,—a Saul
O sant gwaith, a gweddi ;
Hael enaid o oleuni,
I wyl nef, a'n gadael ni.

Yn ei arch hawdd yw parchu—y
A garodd yr Iesu ; [gwron
Gan y Tad, y Ceidwad cu,
Y goron am ei garu.

BRYNFARDD.

COLL GWYNFA MILTWN.

GAN Y PARCH. J. ISLAN JONES, B.A.

I.

Efallai mai nid annyddorol i ddarllenwyr YR YMOFYNYDD ar ol erthygl werthfawr S.N.S. fydd erthygl arall ar "Goll Gwynfa" Milton,—prif orchestwaith y bardd talentog, ac yn ol barn llawer, y brif arwrgerdd yn yr iaith Seisneg. Yr wyf yn deall fod o leiaf ddau gyfieithiad i'r Gymraeg o'r gerdd hon, ac mai eiddo I. D. Ffraid yw y goreu; ond gan nad wyf erioed wedi darllen un cyfieithad, nis gallaf ffurfio barn am deilyngdod y cyfryw. Amcan yr ysgrif hon yw tynu sylw darllenwyr YR YMOFYNYDD yn enwedig yr ieuainc at

GERDD ANFARWOL MILTWN,

a'u hannog i'w darllen yn yr iaith wreiddiol os yn bosibl, am mai yn anfynych iawn y gwnel cyfieithiad gyfiawnder a'r awdwr. Gallaf addaw gwledd lenyddol o'r radd uwchaf i'r sawl a ddarlleno yn ofalus yr arwrgerdd hon. Nis gwn am well engraifft o feiddgarwch y dychymyg barddonol, o eir-liwiad perffaith, a chyfuniad o'r mawreddog, yr ofnadwy, a'r tlws a thyner.

Cyn cychwyn, fodd bynag, dylem gyflawn sylweddoli mai ffrwyth dychymyg y bardd yw Coll Gwynfa, onide bydd i ddesgrifiad Miltwn o Uffern a'r ellyllon sydd yn bodoli yno greu echrys ynom, a tharfu ar heddwch ein nosawl hûn. Ond os y sylweddolwn mai yn nychymyg beiddgar y bardd yn unig y bodolai Uffern a'i phreswylwyr, yna gallwn fwynhau gweledigaethau y diriogaeth ddychrynllyd, a gwrando yn ddigyffro ar swn yr ellyllon a drigant yno mewn penyd.

Manteisiol hefyd i'r darllenydd yn cychwyn fydd dealltwriaeth o safle dduwinyddol Miltwn.

CREDAI MILTWN MEWN UN DUW

prif lywodraethwr y bydysawd; *ni* chredai mewn Trindod o Bersonau yn y Duwdod (gweler ei draethodau ar "Fab Duw" a'r "Ysbryd Sanctaidd.") Credai, fodd bynag, y bodolai Mab Duw yn y nefoedd cyn creadigaeth y byd. Mewn gair

ARIAD

oedd Miltwn neu Undodwr hen ffasiwn, os y mynwch chwi. Credai yn ysbrydoliaeth yr Ysgrythyr, ac ar y tir hwnw derbyniai fel ffeithiau, hanes y cread a'r cwymp yn llyfr Genesis.

Amcan Coll Gwynfa yw gosod allan mewn gwisg farddonol hanes cread a chwymp dyn a'i adferiad yn Nghrist. Y mae'r gerdd wedi ei sylfaenu ar yr hanes ysgrythyrol, ond rhoddodd Miltwn ffrwyn rydd i'w ddychymyg nerthol, nes codi adail ryfeddol o ran hyd, lled a dyfnder ar seiliau cyfyng yr hanes ysgrythyrol.

Yn y llyfr cyntaf y mae'r bardd yn erfyn ar i'r Awen i'w gynorthwyo ac ar i ysbryd Duw i'w nerthu i ganu cerdd deilwng o'r testyn fel y gallo "gyfiawnhau ffyrdd Duw at ddyn." Dug ni wedyn i bresenoldeb angylion syrthiedig, y rhai ar y cyntaf a wasanaethent Dduw yn y nefoedd, ond a ddanfonwyd i uffern am iddynt gynorthwyo Satan yn ei ymdrech uchelgeisiol i orthrechu yr anfeidrol. Hyrddiwyd Satan a'i giwed yn dorf danllyd drwy yr awyr i ddinystr diwaelod, ac yno yn y llynclyn llosgawl poenydiwyd hwy gan adgofion am y dedwyddwch a gollwyd, a chan boenau di-ddiwedd uffern. Ofnadwy yw desgrifiad Miltwn o'r lle poenus hwnw, ac nis gallwn lai na chydymdeimlo a'r ellyllon a gondemniwyd i

dreulio tragwyddoldeb yno, ac nid rhyfedd i Satan geisio ffordd allan o'r ffwrnes frwmstanaidd.

Darfu i rai darllenwyr ddyrchafu Satan i fod yn arwr y gerdd ; nad beth, y mae Satan yn wir arwr ac nis gallwn lai na'i edmygu i ryw raddau. Y mae ei ddewrder a'i obaith yn anorchfygol hyd yn nod pan yn y pwll diwaelod, a dywed wrth ei gyfaill Beelzebub, "beth ! os ydym wedi colli'r dydd nid ydym wedi colli'r cyfan eto : y mae'r ewyllys anorchfygol yn aros." Mewn achos daionus cymeriad anmhrisiadwy fyddai Satan Miltwn, byddai yn dda i lawer o honom gael ychydig o'i ysbryd yn nydd aflwydd. Llwfryn yw Beelzebub, ac y mae wedi rhoddi ei hunan i fyny i anobaith, ond dywed Satan yn mhellach," Y mae'r meddwl yn lle iddo'i hun, ac ynddo'i hun gall

WNEYD UFFERN YN NEFOEDD A NEFOEDD YN UFFERN."

Diolch i ti, Satan, am y frawddeg wirioneddol a gwerthfawr yna, ond yr wyt gryn dipyn allan o le pan y dywedi, "Gwell yw llywodraethu yn uffern na gwasanaethu yn y nefoedd." Croesaw i ti gael uffern i gyd i ti dy hunan, gwell gen i fyn'd i'r nefoedd ar unrhyw delerau, na llywodraethu mewn brwmstan.

Un arall o deulu uffern ydym yn falch o'r cyfle i'w adnabod yw Mammon, a digrif yw cyfeiriad Miltwn ato. Hyd yn nod pan yn un o deulu'r nefoedd, meddai Miltwn, arferai Mammon gerdded yn grybach am nad allai dynu ei lygaid oddiar y palmant aur o dan ei draed. Y mae gyda ni lawer o'i hiliogaeth yn y byd hwn, yn rhy hoff o'r palmant aur i godi eu golygon i'r nefoedd hyd yn nod unwaith yn yr wythnos. Braidd y cydunaf, fodd bynag, a'r bardd pan y dywed, y byddai trysorau gwerthfawr y ddaear yn well heb eu darganfod—dim ond pan y gwneir hwy yn wrthddrychau serch ac addoliad y deuant yn 'werthfawr felldith' yn unig.

Yn yr ail lyfr desgrifia Miltwn Gynghorfa a gynhaliwyd yn uffern dan lywyddiaeth Satan i benderfynu pa gwrs i gymeryd. Cymer Satan y rhag-ofal i ddweyd wrth ei gyfelllion am beidio eiddigeddu wrtho ef eu llywydd, fel y gwnaeth ef eiddigeddu wrth Dduw yn y nefoedd. Mae llywyddu yn uffern, meddai ef, yn golygu yr urddas a'r dedwyddwch uwchaf tra mae llywyddu yn uffern yn golygu y dioddefaint mwyaf. Y mae Moloch am wneud rhyfel yn erbyn Duw ar unwaith, canys os na lwyddent, ac os y byddai i'r Holl-alluog i'w llwyr ddifodi, gwell hyny na bodoli dros dragwyddoldeb mewn poenau. Nid yw Belial yn hollol gyd-fynd ag ef ; gwelliant gwael ar eu cyflwr fyddai llwyr ddifodiant, canys pwy, er ei boenau, a ddewisai gael ei lyncu i

DDIDDYMDRA NOS DRAGWYDDOL,

heb fywyd o un math. Y mae gan Belial afael gref ar fywyd, hyd yn nod yn uffern. Ac nid oedd un sicrwydd, meddai, y gwnelai Duw eu diddymu os y dewisent, gwell gan hyny oedd bod yn dawel rhag iddynt dderbyn gwaeau mwy. Y mae Mammon yn awr yn codi ei lais ac yn dweyd nad oedd ef am fyned i'r nefoedd, os mai'r unig delerau oeddynt edifeirwch ac ufudd-dod i Dduw. Pwy allai ganu emynau ac haleliwia a threulio tragwyddoldeb i addoli yr UN oeddynt hwy yn gashau ? 'Gadewch i ni,' meddai Mammon, 'chwilio cysur yn ein mysg ein hunain ; gwell yw rhyddid a chaledi na gwaseidd-dra esmwyth,' a pheth arall, 'ai nid oes aur a gemau yn uffern ?' —ffaith bwysig iawn yn ngolwg Mammon. Yn mhellach dywedai, 'fe gynefinwn yn mhen amser ag awyrgylch uffern ei hun, a daw yr hyn sydd yn awr yn ein poeni i roddi pleser a boddhad i ni.' Anhawdd dychymygu cyflwr mwy anobeithiol nag eiddo'r un sydd yn gobeithio cynefino a thrueni eithaf uffern. O Mammon ! y mae aur a gemau wedi dy ddallu mor hollol nes yr wyt yn foddlon treulio tragwyddoldeb yn

uffern er mwyn eu cymdeithas. Mwy gobeithiol yw cyflwr Satan, yr hwn, er mewn trueni, sydd o leiaf yn sylweddoli ei drueni ac yn awyddus i ddianc o hono. Yn nesaf daw Beelzebub, yr hwn a ddywed mai ofer yw ceisio gorchfygu yr Hollalluog drwy nerth, ond gallent ei gashau a chynllunio yn erbyn ei amcanion. Efe yw'r cyntaf i awgrymu y dylent ddanfon rhywun i'r ddaear

I DWYLLO A DAMNIO DYN,—

y bod newydd oedd Duw ar fedr ei greu. Cafodd yr awgrym dderbyniad gwresog a chyfododd yn awr y cwestiwn pwy oedd yn ddigon medrus i gyflawni'r gwaith. Dywedodd Satan ei fod ef yn barod i wneud yr ymdrech, ac y byddai yn annheilwng o'i safle uchel fel eu llywydd, os na lwyddai yn yr anturiaeth. Dywedodd wrth ei gyfeillion am ymdrechu gwneud eu hunain mor gyfforddus ag y medrent yn uffern, tra yr elai ef ar ei neges i geisio ymwared iddynt oll ; a chyn i neb gael amser i siarad, i ffwrdd yr aeth. Mewn amser cyrhaeddodd byrth uffern, y rhai a wylid gan ddau greadur hyllig yr olwg arnynt,—un o honynt yn haner benyw a haner sarph, yr hon a adnabyddodd Satan fel ei char yn y nefoedd cyn y gwrthryfel ac fel tad ei phlentyn Angau, yr hwn a wyliai borth uffern gyda hi. Gwnaeth Satan gyfeillgarwch a'i gyn-briod, Pechod, ar unwaith, a hi agorodd borth uffern iddo fynd drwy, ar ei daith i'r ddaear.

Yn y trydydd llyfr y mae'r olygfa yn newid o uffern i'r nefoedd. Y mae'r Tad Hollalluog yn eistedd ar ei orsedd ac yn canfod Satan yn cyflymu tua'r ddaear, a dywed wrth y Mab yr hyn sydd ar ddigwydd. Am Adda dywed Duw, 'Mi a'i creais ef yn uniawn a pherffaith, yn abl i sefyll, ond yn rhydd i syrthio, fel yr oll o'r galluoedd a'r ysbrydion nefol ; y rhai a safasant yn ogystal a'r rhai a syrthiasant. Yn rhinwedd ewyllys rydd y safodd y rhai a safasant, ac y syrthiodd y rhai a syrthiasant. Canys heb ryddid pa brawf sicr y gallant roddi o ufudd-dod gwir, ffyddlondeb a chariad, o wasanaeth

DRWY EWYLLYS AC NID DRWY RAID!'

Gesyd Miltwn bwys neillduol ar ryddid yr ewyllys ddynol,—nad oedd Adda ac Efa wedi eu rhag-arfaethu i syrthio. Meddai yr Hollalluog, 'Hwynthwy, nid Myfi, benderfynasant eu gwrthryfel, ac nid oedd gan fy rhag-wybodaeth i un dylanwad ar eu trosedd hwy, yr hyn a ddigwyddai yr un fath heb fy rhag-wybodaeth I." Y mae hwn yn bwnc neillduol o ddyrys, un sydd wedi penddaru llawer athronydd. Y mae'n fwy nas gall meddwl meidrol ei wneud, i gysoni rhyddid yr ewyllys ddynol, a hollwybodolrwydd Duw ; eto credwn yn mhob un o'r ddau. Ceisiodd Dr. Martineau ddod allan o'r anhawsder drwy wadu rhag-wybodaeth Duw.

Gofyna'r Tad yn awr pa un o deulu'r nefoedd oedd yn foddlon, pan gyflawnai Satan ei fwriad anllad, i ymweled a'r ddaear i waredu dyn o'i bechod marwol,—y cyfiawn i waredu'r anghyfiawn. Ettyb y Mab ei fod yn barod i adael mynwes y Tad er gwaredu dyn. 'Bydded i angau ddial ei ffromiant arnaf fi,' meddai, 'ni fyddaf yn hir yn orchfygedig dan ei hagrwch llethol.' Yn y nefoedd

CYFODODD BANLLEF O FOLIANT

pan y dadguddiodd y Mab ei ysbryd hunanaberthol. Yn y cyfamser neshaodd Satan at derfynau'r ddaear, a chan gymeryd ffurf angel, a phroffesu dyddordeb neillduol yn y bod newydd-greedig, efe a dwyllodd Uriel, y cerub a wyliai derfynau allanol y ddaear i ddangos iddo y fan lle y trigianai dyn.

Fel hyn drwy gyfres o ddarluniau mwyaf byw dug Miltwn ni i gymydogaeth Gwynfa neu ardal Eden, lle yn ol yr hanes y trigianai Adda ac Efa mewn dedwyddwch perffaith a diniweidrwydd hollol. *(Pw barhau).*

BYCHANU PECHOD.

Yn y dyddiau gynt pan oedd gofal ysgol yn gorphwys arnaf—rhyw ddeugain mlynedd yn ol—ychydig fwy neu lai, dygwyddodd amgylchiad sydd wedi dyfod yn ol yn ffres i fy meddwl yn bresenol. Yr oedd yna rywbeth anymunol wedi cymeryd lle yn yr ysgol ac fel canlyniad yr oeddwn yn teimlo'n ddyledswydd arnaf i roi gwers bwysig, a'i gwasgu ar feddyliau y rhai bach, a gwnes yr amglychiad yn bwnc papyr. Eglurais iddynt y peth oeddwn am gael, a nodais rai gofyniadau fel math o gyfarwyddyd. Cofiaf un gofyniad yn neillduol—Beth ddygwyddai i'r dyn oedd leidr? Pan ddaeth y papyrau yn ol ar yr amser penodedig, cefais ddau ateb tarawiadol—byr a thrwsgl ddigon fe allai—yn Saesneg wrth gwrs. Un ateb oedd—"Go to hell, Sir"; yr ateb arall—"Shan't go to heaven!" Mewn sylwedd yr un meddwl. Nid wyf mor sicr. Beth am yr agwedd neu'r gogwydd meddyliol? A ydynt yr un mewn gwirionedd:—Y mae un a'i feddwl ar uffern a'r llall ar nefoedd, un ar y diafol a'r llall ar Dduw, un ar ei bechod a'r llall ar rinwedd. Edrych un ar ei Baradwys yn y gorphenol, dysgwylia'r llall am dano yn y dyfodol. Onid dyna gnewyllyn y gwahaniaeth rhwng gogwydd y Trindodwr a'r Undodwr a'r prif reswm am hoffder y naill o'r gair Achubiaeth a'r llall o'r gair Iachawdwriaeth? Oddi yma fe allai hefyd y tardd yn benaf, y cyhuddiad fod yr Undodwr yn bychanu pechod.

Ehangir tiriogaeth y Bychanu yn ddirfawr os caniateir fod barn y diweddar Anrhydeddus W. E. Gladstone yn wir. Tybiai efe mai y cyfnewidiad mwyaf gymerodd le yn mywyd crefyddol ein gwlad yn ei ddydd ef oedd y Dadfael yn y Teimlad o Bechod—The Decay in the Sense of Sin. Syniad cyffredin bore bywyd Mr. Gladstone, a syniad sy'n ddigon cyffredin heddyw yw fod pob dyn enir i'r byd yn deilliaw o Adda ac yn etifedd o'i bechod, ac oblegid hyny yn agored i gospedigaeth dragwyddol. Y mae'r syniad hwnw wrth bob tebyg wedi prysuro bywyd miloedd drwy'r canrifoedd i fedd anamserol. "O," meddai hen amaethydd cyfrifol yn Llanarth gynt, pan yn gweled llo bach yn cael ei waedu, "O, nad allwn ni farw fel hwna, heb gyfrif byth am danom!" Yr oedd yn well gan yr hen wr druan, aberthu ei obaith am nefoedd a myned i ddistawrwydd bythol y bedd, na meddwl am y posibilrwydd ei fod o nifer y golledigion a myned i uffern o dân a brwmstan tragwyddol. Dyma'r athrawiaeth a gadwodd yr enwog fardd William Cowper ar fin gwallgofrwydd yn ystod blynyddoedd diweddaf ei oes. Mor fynych yr ydys wedi gweled y diacon yn codi ar ei draed yn y set fawr ac yn galw ei hunan yn benaf o bechaduriaid, ac yn dywedyd fod ei galon yn llawn twyll a drygioni ac onibae am drugaredd y Duw mawr mai uffern dân oedd ei haeddiant; ac eto pe byddai i rywun godi ar ei ol a dywedyd, Digon gwir, yr wyf yn credu pob gair ddywedaist ti; tydi yw'r adyn gwaelaf, bryntaf welais i erioed. Tebyg y digiai yn aruthr; nid oedd yn golygu hyny. Y cwbl fwriadai oedd cyffesu ei fod yn bechadur *mewn ystyr dduwinyddol*, ac felly taflu dwst i lygaid yr Hollwybodol! O orchwyl ofer! Y mae'n twyllo ei hunan, ni all efe dwyllo Duw. Tra mae ei dafod yn dywedyd ei fod yn bechadur, gwir deimlad ei galon yw nad yw efe ddim *bad sort y tôl* chwedl gohebwyr *Cymru*. A dywedyd y gwir, ac fe'i dywed wedi myned allan—nid oes ynddo ef ddim pechod!

Mwy gonest yn fy ngolwg i yw cyffes un arall,—Yr wyf wedi gwneud drygau lawer yn fy mywyd ac yn

ofni fy mod o bryd i'w gilydd yn parhau i'w gwneud ; yr wyf yn missio'r nod—ond yn treio eto drachefn a thrachefn. Nid wyf yn gwybod fy mod yn cashau neb, na Duw na dyn, na rhinwedd na daioni, a gwn fod llawer o "iechyd ynof" ; ac yn "fy nghorff," pan nad yw mewn gair yn werth fawr, y mae llawer i "beth da" ynof, er gwaethaf y ddarfodedigaeth a'r Apostol Paul.

Cofiaf y diweddar Mr. Richard Bedlington un tro yn dywedyd ei fod yn credu fod un dyn yn cael ei *eni* yn Galfin ac un arall yn Armin ; hyny yw fel yr oeddwn i yn ei ddeall, fod un yn cael ei eni i edrych ar ochr dywyll pethau, ac un arall ar yr ochr oleu. Mor bwrpasol yw dameg y Ddwy Shwg. Cwrddant â'u gilydd ar eu gorchwyl un diwrnod, ac ebe un, Yr wyf wedi hen flino ar y gwaith hwn. Er i mi gario'm shwg un ffordd yn llawn yr wyf yn gorfod ei chario yn ol yn wag o hyd ac o hyd. Y mae'n ddigon i dori calon.—"Wel," ebe'r llall, "y mae genych ffordd od i edrych ar bethau. Nid yn y fel yna y byddaf fi yn gweled. Byddaf fi yn meddwl fel hyn : Er i mi fyned a'm shwg i'r ffynon yn wag, yr wyf yn ei dwyn gyda mi adref yn llawn bob tro !

The difference is as great between
The optics seeing as the objects seen.
—*Pope.*

Y codwm sy fwyaf ar feddwl un, tra mae meddwl y llall yn fwy amlwg ar y Codi. Ysgrifenodd Dr. Darwin ei lyfr ar Ddisgyniad Dyn a'r Proffeswr Drummond ar ei Esgyniad. Edrych un dyn ar ei eglwys neu ei gapel fel yspytty (hospital), lle i wella clefydau ; ac arall fel Ysgol Parotoad, lle i gyfranu addysg ac ysprydoliaeth fydd yn help i fywyd gwell.

Cyhuddir yr Undodwr ei fod yn Bychanu Pechod. Ai gwir y cyhuddiad ? Nid oes eisieu amheu nad yw'r Undodwr yn pechu, ond a ydyw yn pechu mwy na'i frawd neu ei chwaer o ryw eglwys arall ? Choelia i ddim. A ydyw yn llai gonest, yn llai cydwybodol, yn llai ffyddlon i rinwedd, i burdeb, i ofynion cyffredin dyledswyddau moes a chrefydd. Dyna'r test goreu. Dichon nad yw yn gallu cyffesu'r pechodau a berthynant i'r "ystyr dduwinyddol," nad yw yn gallu teimlo euogrwydd oblegid pechod Adda. Gedy'r cyfrifoldeb am y rhai hyny i Adda ; digon iddo ef fod yn gyfrifol am ei bechodau ei hun, ni choeliwn y gofynir rhagor na hyny oddiwrtho ef na neb arall. "Pob un a ddwg ei faich ei hun." Dywedodd y Parch. Evan Jones, Caernarfon, mewn pregeth yn y Ceinewydd ychydig amser yn ol, ac y mae efe yn Fethodyn, a dylai fod yn gwybod, nad oedd pechod Adda yn blino dim arno ef ; ac os ydyw Evan Jones yn rhydd, ni fedraf fi weled paham y mae eisieu i'w wrandawyr flino. Blinant yn hytrach am eu pechodau eu hunain a gadawant hwy ar ol.

Bychanu pechod yn wir ! O'r braidd y credaf fod yr Undodwr yn fwy euog na phobl eraill. Yr hwn sydd yn pechu sydd yn bychanu pechod. Cofier hyny. A'r hwn sydd yn pechu fwyaf sydd yn bychanu fwyaf. Nid yw yn amlwg iawn fod Gladstone yn cyfyngu y bychanu i'r Undodiaid. Nid oes sicrwydd fod yr Undodwr yn ei feddwl o gwbl. Am y bychanu tybiedig, purion fydd cofio fod addysg daeareg sydd yn tystio fod marw yn y byd cyn Adda ; ac addysg Darwin a Wallace sydd yn ei osod hwnt i amheuaeth, nad oedd Adda ond megis un linc yn nghadwyn anherfynol yr ymddadblygiad, wedi taflu golwg newydd a golwg fwy rhesymol a gobeithiol ar ein perthynas ni ag Adda, fel y mae baich yr hen flinder yn raddol yn rhwym o fyn'd yn llai.

Ond er hyn oll a hyn oll, ni fynwn ni er dim wneuthur cam â neb, a rhag fy mod wedi geirio'n rhy gryf, yr wyf am ychwanegu'r gair fydd o du heddwch. Gwn mor wahanol yw ein dygiad i fyny, mor bell yw ein safle feddyliol y naill oddi wrth y llall, ac fel canlyniad mor anhawdd ydyw i ni

ddeall ein gilydd. Addefaf gan hyny nad iawn o'm tu i fyddai dywedyd fod dynion yn gyffredin o fwriad ac yn rhagrithiol yn cyffesu pechodau nad ydynt yn euog o honynt. Credwn y gall fod rhai fel Paul gynt, oblegid teimlo'r drwg a gyflawnasant yn taflu ei gysgod fel blanced gwlyb dros eu holl yspryd, yn edrych arnynt eu hunain fel mewn gwirionedd "y penaf o bechaduriaid." Nid rhaid eu bod oblegid hyny, ac ni chredwn fod hyny yn wirionedd cyffredinol. Pwy gred am Paul, er ei fod yn galw ei hunan yn benaf o bechaduriaid ei fod felly mewn gwirionedd ar yr adeg oedd yn llefaru? A gred rhywun ei fod felly yn ngolwg y Tad goreu, neu yn ngolwg y brodyr a'r chwiorydd Cristnogol a'i adwaenent? Yr oedd wedi erlid yr eglwys. O'r goreu. Ac yr oedd wedi edifarhau a gadael ei bechod—ei bechod ei hunan, onide, ac nid pechod Adda. "Eithr mi a gefais drugaredd," meddai, "am i mi yn ddiarwybod ei wneuthur." Yr oedd Saul yn erlidiwr, er go hir amser bellach wedi cael troedigaeth, ac wedi myned yn Paul y Cristion ffyddlawn a phenaf amddiffynydd y ffydd.

Ai gormod cais o'r tu arall fyddai i mi ofyn i'r brodyr, sydd mor barod i'n cyhuddo, i holi eu hunain ai nid rhagfarn duwinyddol yn benaf sydd yn peri iddynt ddywedyd ein bod yn bychanu pechod? Nid dieuog, gyfeillion, yr hwn a esgyn i'r orsedd i gollfarnu ei frodyr.

Ond i derfynu, a ydyw yn nos ar ein enneidiau? Nid yw hyny am fod Duw wedi ein gadael ni, ond o herwydd ein bod ni wedi gadael Duw. Dychwelwn gan hyny bawb, ac edifarhewn, nid am "Fancy sins" y credoau, nid am y pechodau yn yr ystyr dduwinyddol, pechodau na pherthynant i ni o gwbl, ond yn hytrach edifarhewn mewn sachlian a lludw am ein pechodau gwirioneddol ein hunain, ac edifarhewn yn wirioneddol ac ymarferol drwy eu gadael i gyd ar ol, a cheisio troi dalen newydd ac hyd eithaf ein gallu i fyw'n well yn y dyfodol. R.J.J.

SYLWADAU AR BECHOD.

Pan gyrhaedda yr enaid ar ei daith i fwlch yr argyhoeddiad ac y daw at y porth cyfyng drwy'r hwn y mae'n rhaid myned i mewn i Deyrnas Dduw, gwel ei hun a'i fywyd mewn agweddau newyddion. Ymddengys fod rhai o'r agweddau hyn wedi eu camddeall a'u camesbonio. Mae pwyslais gormodol wedi ei osod ar yr agweddau mwyaf tywyll, annymunol, ac anobeithiol, tra y mae'r agwedd oleu, ddymunol, a gobeithiol wedi ei hanwybyddu neu heb ei gweled. Amcan yr ysgrif hon ydyw galw sylw y darllenydd at yr ochr oleu a gobeithiol ar bechod.

I.

Gwelwn fod yr enaid yn dyfod yn wybyddus o bechod *fel peth na ddylasai fod.* Hyd y pwynt hwn yn ei thaith y mae wedi bod yn dawel ac yn ddifater am y bywyd moesol. Ond yn awr deffrodd o'i gwsg moesol, a gwel gyda golwg gweddol eglur fod elfenau yn ei fywyd nad ydynt mwyach yn gweddu iddo ef o gwbl. Y maent yma megys darluniau ar fur y deml. Hyd yma nid ydynt wedi ymddangos yn anweddus. Yr oeddynt mewn cydgordiad a'r goleuni oedd megys cysgodion nos

yn tywynu yn y deml. Ond mae'r wawr wedi tori, y cysgodion yn cilio, a'r darluniau ar y mur yn ymddangos yn fwy hagr nag y gwnaethant erioed. Yn y goleuni newydd hwn gwel fod yr hen ddarluniau yn hagru'r lle, a'u dedfryd yw na ddylasent erioed gael eu hongian ar y mur. Goleuni a gweledigaeth newydd yn hagru yr hen ac yn eu condemnio fel pethau anghymwys yw un o'r ffeithiau yn y profiad hwn.

II.

Sefyllfa boenus a gofidus ydyw hon. Pan wel y pregethwr neu yr areithiwr lle y gallasai wneud yn well; pan wel y bardd wallau yn y mesur neu yn y gynghanedd; pan wel yr arlunydd y rhanau bychain hyny ydynt yn hagru ei holl waith; pan wel y masnachwr sut y mae wedi methu yn ei gynlluniau, teimla yn ofidus, condemnia ei hun, a geilw ei hun wrth enwau nad ydynt yn golygu syniad uchel am dano ei hun. Felly gyda'r teimlad o bechod—gofid, galar, euogrwydd, brathiadau; rhyw ddisgwyl digofaint;—cais am ffordd i ddianc, ymdrech i'w chael, methiant a gwan-obeithio; dymuniad am y da, a'r drwg yn trechu drachefn a thrachefn,—"ys truan o ddyn wyf fi, pwy a'm gwared oddiwrth gorff y farwolaeth hon?" *Ffaith* yw yr ymwybyddiaeth foesol; ac, *nis gellir darlunio ei gwyrni yn rhy gryf.*

III.

Ond nid yw hyn yr *oll. Y mae rhagor a gwell.*

Camsynied ydyw sefydlu sylw yr enaid ar y darlun du hwn. Drwy bwysleisio hwn ac anwybyddu yr agwedd well, gwneir ni yn debyg i'r darlun du, deffroir elfenau niweidiol, gwneir rhagrithwyr, gwanheir nerth moesol yr enaid nes y gwaedda am ryw waredwr tu allan iddi ei hun sydd a digon o haeddianau ynddo i waredu ei hun ac eraill.—Mae yr enaid fel un wedi ei gloffi, a rhaid cael ffon neu gerbyd iachawdwriaeth. Nid achub ond nychu enaid yw yr effaith, dihysbyddu yr enaid o'i nerth i enill ei frwydr.

Ond beth am y goleuni newydd? Beth am y wawr sydd wedi tori? Ai nid yr enaid sydd yn galaru? Pwy sydd yn gweled ac yn condemio y drwg? Ai nid yr enaid sydd wedi gweled, wedi condemnio, wedi galaru, a gofidio? Yn yr enaid ei hun mae y goleuni newydd. Yn yr enaid ei hun mae y weledigaeth newydd. Os mai peth i'w ddwrdio a'i fychanu a'i anmharchu drwy ei alw wrth enwau drwg ydyw y *bod* gogoneddus hwn, nis gwyddom ddim gwerth ei fawrogi a'i ganmol.

Ond barn Duw, golenni Duw, gweledigaeth Duw—Duw sydd yn gweithredu yr oll. Eithaf gwir. Ond goleuni Duw yn yr enaid, gweledigaeth Duw yn yr enaid, barn Duw yn yr enaid ydyw. Frawd anwyl, paid rhyfygu, ond paid chwaith a digaloni. Tydi yw y goleuni, y weledigaeth a'r farn, a'r galar—maent yn gymaint eiddo i ti a'r teimlad o'r weithred gondemniedig. Mae y goleuni a'r darlun newydd yn gymaint o eiddo i ti a'r hen ddarlun hagr sydd wedi dy boeni gymaint. Mae delfryd foesol Duw, y Crist Tragywyddol, y dyn sydd yn dyfod, wedi dadguddio ei hun i dy enaid. Cofia mai hwn yw dy hunan goreu di, a bod nerth y bywyd annherfynol ynddo a thu cefn iddo. Cefna ar wlad y nos a gwyneba'r goleuni, a chyfnewidir di o ogoniant i ogoniant hyd nes y cyrhaeddi dy gyflawn faintioli fel mab y Tad tragywyddol.

YOD.

LLYTHYR Y CRANC.

III.

MR. GOLYGYDD,

Gan fod natur wedi fy nghynysgaeddu ag ewinedd, onid er crafu y gwnaed hwy? Ac os yw amgylchiadau wedi rhoddi cyllell yn llaw Deio Cnwcyrhwrdd, onid yw yn rhydd i dreio tori ewinedd y Cranc? Ond os torir ewinedd y Cranc, nid Cranc fydd mwyach ond creadur egwan diamddiffyn, yn barod i'w lyncu gan y newynog cyntaf ddaw heibio. Cofier cymaint a hyn fodd bynag, *fod ewinedd yn golygu yhywbeth crafadwy* ac nad eill byd nag sydd yn cynwys dim ellir ei grafu, gynyrchu crafwyr ychwaith. Felly mae dau lwybr posibl, yn gyntaf, fel yr awgryma Deio, tori'r ewinedd, ac yn ail, fel yr awgrymaf finau, symud y pethau crafadwy. Canys y crafadwy sy'n creu'r crafwr. Nid adnod o'r Beibl yw hona, ond yr wyf yn credu ei bod yn adnod o gyfrol profiad y byd. Nid wyf englynwr, ac y mae Deio yn hyfedr yn y mesurau caethion, fel mae'n amlwg. Felly 'does genyf ond ei ateb yn dalcenslip rywbeth fel hyn :—

Deio, Deio, bydd yn dawel,
  Paid a blino'th feddwl, lanc,
Gweithia er mwyn dy blant a Mali ;
  Ac na hidia am y Cranc.
Pan fo'r awen wedi rhewi,
  Pan fo Mali'n groes ei grân ;
Tana'th bib yn ngwres y llythrod
  Bydd yn gynes wrth dy dân.

Os yw'r helmi oll yn ddiddos
  Os yw'r gwair yn fwdwl clyd ;
Paid a hidio beth a draethaf
  Am bregethwyr bach y byd.
Os wyt ti yn rhoi a elli
  Yn casgliad ar y Sul ;
Os wyt ti yn gwneud a elli
  I geisio rhodio'r llwybyr cul.

Paid a boddran am bregethwyr,
  Y lilïod gwyn eu gwawr,
Na fu Solomon y doethawr
  Hafal iddynt ennyd awr.
Cymer edyn gloew'r awen,
  Hed uwch diffaeth dir dy fanc,
Ac fe fyddi yn yr entyrch
  Fry o gyrhaedd gwinau'r Cranc.

Y mae Mrs. Cranc yn hala
  I gofio'n fawr at Mali'r wraig,
Ac mae chariad at dy blantos
  Yn ddiysgog fel y graig.
Pan y del Nadolig nesa',
  Os bydd twrci ar dy fwrdd
Paid a synu'n gwel'd yn dyfod
  I gael cinio yn Nghnwcyrhwrdd.

* * *

Dro yn ol, wrth dramwy'r wlad, cwrddais ag offeiriad. Yr oedd yr olwg arno yn drwsiadus, yn gyfforddus, ac yn dew. Yr oeddwn yn ei adnabod yn dda ys llawer dydd, cyn iddo ef fagu cest, a minau dyfu gwinedd. (Maddeuwch y ffurf "gwinedd.") Yr oedd ar fy mryd sefydlu darllenfa fechan yn fy mhentref genedigol—a'i fan genedigol yntau o ran hyny. Atebodd fi drwy ddweyd nad oedd yn credu mewn darllenfaoedd, ac eisteddfodau, a'r fath bethau. "Be' gwell ych chi," meddai, "o dreio cael gyda *boys* Cwmsyfi a merched Penybanc i ddarllen, on'd i nhw'n ddigon hapus fel y ma'n nhw, gyda'r da a'r ceffylau, a'r moch a'r defaid, a chanu maswedd, a rowsan, a charu a chriwsa? *I am a utilitarian*," meddai. Gofynais inau iddo beth oedd yn feddwl wrth y gair *utilitarian*, yn lled syml mi addefaf. Edrychodd yn syn arnaf, yna cofiodd ei fod e' wedi bod drwy Goleg Llanbedr, a finau, wel—heb fod. Hyny yw tybiodd mai

gofyn ystyr syml y gair *utilitarian* oeddwn, ac atebodd fi yn ol fy symledd—"*It comes from the word 'utility' or 'usefulness!*" A rhithfeddyliaf nas gwyddai fawr ragor ei hunan am y peth. Ymadewais ag ef, gan ei adael i gredu mai Cranc o anwybodaeth hollol ddiobaith oeddwn i—a chefais inau oleu disymwth ar *natural history* ei gest. Yn awr pan êl rhywun i ddadleu'r cwestiwn a mi, pa un a yw diwylliant yn dwyn hapusrwydd neu beidio, neu o leiaf pa un a ydyw yn werth gwrteithio cynheddfau'r meddwl, gofynaf y cwestiwn syml, Pa un f'ai gwell genych, bod yn fochyn yn bolheulo yn y llaid, neu'n blentyn yn canu anthem mewn côr ar oriel capel?

Ac os etyb ei fod o'r farn mai mwy bendith bod yn fochyn nag yn ddyn, gadawaf iddo, gan wybod, wel mai mochyn ydyw, o ran pob hanfod. Gwn nad oes amheuaeth o gwbl gan Deio, Cnwcyrhwrdd mai gwell a dyfnach pleser yw gwrando ar dôn ysbrydol hedydd ar ei fanc, na meddwi mewn *auction*. Nid wyf yn sicr nad addefa fod mwy o bleser mewn bod ar ei ddeulin mewn gweddi nag ar ben helem. Ac yr wyf yn hollol sicr yn fy meddwl fy hun y cai *boys* Cwmsyfi bleser gwell, a mwy parhaol mewn darllen, a chanu pethau da, ac edmygu natur, a mwynhau yr ysbrydol a'r materol, y prydferth a'r defnyddiol yn y wlad, na thrwy ganu maswedd, a rowsan, a charu, a chriwsan. Heblaw hyny, y mae darllen ac edmygu natur, a byw bywyd diwylliedig, yn fwy defnyddiol i'r byd yn gyffredinol, ac yn ychwanegu at hapusrwydd dynoliaeth yn fwy na'r arferion crybwylledig. Am hyny y credaf yn ddiysgog fod bywyd uwch a bywyd is, fod bywyd mochyn a bywyd dyn, fod hapusrwydd cyfyng ac hapusrwydd eang, fod defnyddioldeb bychan a defnyddioldeb mwy,—mewn gair, credaf yn y *larger utilitarianism*. Am hyny, credaf mewn llyfr, ac awen, a phregeth (ambell waith), ac ysgol, ac Eisteddfod. Bu'r offeiriaid yn chwilio am hapusrwydd a magodd gest, drwy ryw anffawd neu gilydd mae fy ymchwiliad i am hapusrwydd wedi'm gwneud i fagu ewinedd. Er hyn oll credaf mai drwy eangu tiriogaeth yr enaid y mae cael y mwynhad penaf, esgyn bryniau sanctaidd y meddwl a'r ysbryd, yna cawn weled gweledigaethau gogoneddus bodolaeth.

Fy nghwyn y tro hwn yw fod pobl y wlad yn rhy dueddol i fod yn gysurus yn y manau lle maent. Anhawdd eu cael i ymadael a'r hen ffyrdd o dor-heulo yn llaid a llaca hen arferion. Ond nid oes genyf amser i ysgrifenu rhagor y tro hwn. Unwaith eto treiaf roi mewn penill gnewyllyn fy llên :—

Cwyd, hen gysgadur llibyn
Sy'n tordain yn y llaid :
Myn lwybrau amgen, hogyn,
Na dilyn ôl dy daid.
Yn fanwl ar i fyny
Teithia dan gredu, grwt—
A chofia beidio dilyn
Y mochyn yn y mwt.

Yr eiddoch yn ewinog,

Y CRANC.

HOLLBRESENOLDEB.—Yr hen Iolo a ddywed yn darawiadol,—

Mae Duw 'mhob man a chydag Ef,
B'le byna'r man, cawn yno'r nef.

Ond a oes sicrwydd ein bod bob amser yn sylweddoli beth sydd i'w feddwl wrth hyny? Duw'n hollbresenol! Ebe athraw yn yr Ysgol Sul, "A oes rhyw fan lle nad yw Duw?" "Oes," ebe hogen fechan chwe mlwydd oed, er syndod mawr i'r athraw, "nid yw yn holl feddyliau'r drygionus!"

MOSES A'R PUM LLYFR.

GAN GWILI.

Moses yn bendifaddeu yw dyn mwyaf yr Hen Destament, ond y mae'n bosibl credu gormod neu gredu rhy ychydig o berthynas i natur a mesur ei waith.

"Y gyfraith a roddwyd drwy Moses," medd awdwr y bedwaredd efengyl (Ioan i. 17); a barn crefyddwyr Cymreig yn gyffredin yw mai Moses yw awdwr pob silleb a gynwys pum' llyfr cyntaf yr Hen Destament. Fe geisir dangos yn union mai engraifft o gredu gormod yw hyn.

O'r tu arall, fe geid beirniaid i ddywedyd, dro'n ol, nad oedd coel i'w rhoi ar y traddodiadau yn nghylch person fel Moses, ond fod y cyfan a adroddid am dano yn perthyn i lên gwerin a chwedl fore. Erbyn heddyw, edrychir ar y dyb hon fel engraifft o gredu rhy ychydig. Ceir hyd yn oed Renan yn addef ei bod yn debyg iawn i berson fel Moses fodoli, er cymaint cuddio fu arno gan draddodiad*; ac nid yw beirniaid fel Wellhausen, Smend, Kittel, Cornill, Kautsch, a Driver yn ameu ei fodolaeth am funud. "Moses" meddai Robertson Smith, "yw tad yr offeiriaid yn ogystal a thad y proffwydi" (Old Testament in Jewish Church, ed. 2, p. 303). "Yr oedd yn broffwyd yn ogystal a barnwr. Fel y cyfryw, sylfaenodd yn Israel egwyddorion mawr crefydd foesol y Jehofa cyfiawn" (ib. p. 305). Mewn gair, y mae beirniaid Beiblaidd ein dydd yn unfarn â chrefyddwyr anysgedig o berthynas i'r gair a dywed: "Ac ni chododd proffwyd eto'n Israel megys Moses, yr hwn a adnabu'r Arglwydd wyneb yn wyneb" (Deut. xxxiv. 10).

Ond er hyn oll, cydnebydd beirniaid—beirniaid ceidwadol—ei bod yn anmhosibl deall hanes dilynol Israel, a hanes datblygiad ei chrefydd, os edrychir ar y Pum Llyfr fel cynyrch oes Moses, neu gynyrch Moses ei hun. Awydd am eglurhad ar lawer anhawster a gyfyd o'r llyfrau eu hunain, ac nid ymgais i greu pentwr o anghysondeb, sydd tu ol i'r feirniadaeth Feiblaidd a gondemnir mor fynych; ac ond odid na ddaw hyny i'r golwg yn y benod hon, a'r penodau a ddilyn.

Wele rai rhesymau dros ddal nad Moses yw awdwr pob gair o'r Pum Llyfr a geir yn ein Beiblau ni ar ei enw.

1. Ni hawlir iddynt, yn unman, mai Moses yw eu hawdwr. Sonir am dano'n barhaus yn y trydydd person; ac megys i wahaniaethu rhyngddo âg awdwr neu awduron ereill, dywedir i Moses ysgrifenu geiriau neilltuol drwy orchymyn Duw (Ecsod. xvii. 14; xxiv. 4, 7; xxxiv. 27; Num. xxxiii. 1, 2; Deut. xxxi. 9, 11, 22, 24, 26). Os mynir nad yw hyn brawf digonol, ac fod rhywbeth tebyg i waith llenyddol Julius Cæsar yn bosibl i Moses, yna, beth am ymadrodd fel hwnw a geir yn Num. xii. 3? A yw'r llarieiddaf o ddynion yn benaf o Phariseaid? Gwell, yn ddiau, yw credu mai arall a ddywedodd: "A'r gwr Moses ydoedd lareiddiaf o'r holl ddynion ar wyneb y ddaear."

2. Ni ysgrifenodd Moses hanes ei farw'i hun. Yr oedd dau draddodiad gan y Rabiniaid o berthynas i'r hanes hwnw. Yn ol un, Josua a'i hysgrifenodd. Yn ol y llall, Moses ei hun—gan wylo'n hidl tra bu wrthi—a'i rhoes yn y Pum Llyfr. Ymgais

---

* La légende a entierement recouvert Moïse . . . quoique son existence soit tres probable.—Hist. du Peuple d'Israel, p. 159.

Rabiniaidd i sicrhau unoliaeth ac awdurdod i'r Pentateuch a gyfrif am yr ail draddodiad, a braidd y mae'n bosibl i neb ei gredu, bellach. Ac er y byddai cydnabod awduraeth Josua yn ddinystr i'r gred yn awduraeth Foesenaidd yr oll o'r Pum Llyfr, ni ddeil y dyb hono i'w beirniadu chwaith. Dywedir, yn Deut. xxxiv. 1, i'r Arglwydd ddangos i Moses "holl wlad Gilead hyd *Dan*." Ond nid oedd Dan mewn bod yn amser Josua, chwaithach Moses. Yn nghyfnod y barnwyr, pan nad oedd brenin eto ar Israel, ymfudodd y Daniaid i'r Gogledd at bobl lonydd a diofal Lais: "A hwy a alwasant enw'r ddinas *Dan*, yn ol enw'u tad, yr hwn a anesid i Israel: er hyny *Lais* oedd enw'r ddinas ar y cyntaf" (Barn. xviii. 29). Dangos y wlad "hyd *Lais*" ddywedasai Josua; ond yn mhell wedi dyddiau Josua yr ysgrifenwyd y geiriau.

3. Ceir llawer arwydd o ddiweddarwch cyffelyb. (a) Dywedir yn Gen. xxxvi. 31: "Dyma hefyd y brenhinoedd a deyrnasasant yn ngwlad Edom, cyn teyrnasu brenin ar feibion Israel." Ond pa'm yr ail frawddeg, os mai Moses yw'r awdwr? Dyma un o leiaf yn nyddiau Saul, ar unwaith. Pell oedd Moses o feddwl am i neb heblaw'r Arglwydd deyrnasu ar bobl Israel; a thebyg mai'r awgrym sydd dan yr adnod yw mai dyma frenhinoedd ar Edom, cyn ei darostwng gan frenhinoedd Israel. Dygai hyn ni i lawr hyd ddyddiau Dafydd, beth bynag.

(b) Sonir yn Num. xxi. 14, am "lyfr rhyfeloedd yr Arglwydd." Cymerir dyfyniad o hono, ac amlwg yw nad yn yr anialwch yr ysgrifenwyd ef. Prin dechreu yr oedd rhyfeloedd Iafe yno, ac nid tebyg fod dwy neu dair cân eisoes yn ffurfio casgliad. Concrwyd Sehon, brenin yr Amoriaid, yn niwedd dyddiau'r anialwch, ac ychydig cyn marw Moses. A oedd y digwyddiad eisoes ar gân gan y gwawdganwyr, neu'r diarebwyr enwir yn adnod 27, fel ag i alluogi Moses i groniclo'r ffaith—a'u dyfynu hwy? Nid hawdd yw credu hyn.

(c) Cymerir yn ganiataol fod Canaan wedi ei henill yn Deut. ii. 12: "Yr Horiaid hefyd a breswyliasant yn Seir o'r blaen; a meibion Esau a ddaeth ar eu hol hwynt, ac a'u difethasant o'u blaen, a thrigasant yn eu lle hwynt, *fel y gwnaeth Israel i wlad ei etifeddiaeth yntau*, yr hon a roddes yr Arglwydd iddynt." Rhywun yn ysgrifenu yn Nghanaan ddywedodd hyn, nid Moses.

(d) Cyfeirir at wely Og, brenin Basan, yn Deut. vi. 11, ac ychwanega rhyw gopïwr neu groniclwr, rhwng cronfachau: "Onid yw hwnw yn Rabath meibion Amon?" Pa achos oedd i Moses ddywedyd hyn, ac yn yr un dyddiau?

(e) Dadleuwyd ryw dipyn o berthynas i ystyr y frawddeg yn Deut. i. 1, ond deil rhai o'r prif Hebrëwyr nas gall olygu "*o'r tu yma* i'r Iorddonen, yn yr anialwch." Bid a fo, gair y benod am y "deheu" yw *Negeb*, tir cras—ymadrodd cywir i un yn ysgrifenu yn Nghanaan, ond nid priodol iawn i Moses yn yr anialwch.

4. Cydnabyddir gan feirniaid mai Moses ddygodd i Israel ddatguddiad clir o Iafe (neu Jehofah). Dywedir er hyny, yn Ecsod vi. 2, 3, "ond erbyn Fy enw Iafe, *ni bum adnabyddus iddynt*." Wrth yr enw *El-Shadai*, medd y geiriau, yr ymddangosodd Duw i Abraham, Isaac, a Jacob. Ond y syndod yw fod Duw eisoes yn adnabyddus i'r tadau hyn wrth yr enw Iafe. Dywedir wrth Abraham: "Myfi yw Iafe, yr hwn a'th ddygaist di allan o dir y Caldeaid" (Gen. xv. 7); ac wrth Jacob: "Myfi yw Iafe, Duw Abraham, dy dad" (Gen. xxviii. 13). Sut y cysonir hyn â'r dybiaeth mai Moses yw awdwr Ecsodus a Genesis?

5. Ceir ail adroddiad o hanes yr un digwyddiad. Ymfoddlonir, yn awr, ar ddwy engraifft:

(a) Ceir dau adroddiad o hanes y *creu*; ac nid hawdd yw credu i'r ddau ddod odditan law'r un awdwr. Yn ol yr adroddiad cyntaf, crëir yr ymlusgiaid a'r bwystfilod *o flaen dyn* (Gen. i. 24—26); eithr yn ol yr ail, crëir dyn yn gyntaf, ac yna'r anifeil-

iaid, &c., i fod yn gwmni iddo: "Hefyd yr Arglwydd Dduw a ddywedodd 'Nid da bod dyn ei hunan; gwnaf ymgeledd cymhwys iddo.' A'r Arglwydd Dduw a luniodd o'r ddaear holl fwystfilod y maes, a holl ehediaid y nefoedd, ac a'u dygodd at Adda i weled pa enw a roddai efe iddynt" (Gen. ii. 18, 19. Eto, yn ol yr adroddiad cyntaf, crëir dyn, yn wryw a benyw, ar yr un adeg: 'Felly Duw a greodd y dyn ar Ei ddelw Ei Hun; ar ddelw Duw y creodd Efe ef: yn wryw ac yn fenyw y creodd Efe hwynt" Gen. i. 27). Eithr, yn ol yr ail adroddiad, nid cyn pen yspaid o amser ar ol creu Adda y gwnaed Efa. Plenir gardd i Adda. Rhoddir ef i'w thrin a'i chadw. Crëir yr anifeiliaid, a dygir hwynt ato i'w henwi; ac wedi hyn oll, pan wêl Adda nad cymhwys fel ymgeledd yw nebun o'r anifeiliaid, syrth trwmgwsg arno, a chymerir o hono un o'i asenau: "A'r Arglwydd Dduw a wnaeth yr asen a gymerasai Efe o'r dyn yn wraig, ac a'i dug at y dyn" (Gen. ii. 22). Amlwg yw, heb nodi gwahaniaethau ereill—megis yr enwau gwahanol ar Dduw—fod genym yma ddau adroddiad gwahanol o hanes y creu. Perthyn y cyntaf i gyfnod pan nad oedd Duw mwyach yn rhodio mewn gerddi, neu'n chwythu i ffroenau dyn anadl einioes, neu'n cyffwrdd â mater i lunio gwraig. "Bydded" yn unig sydd eisieu ar Dduw'r adroddiad cyntaf, a daw pob dim i fod yn drefnus. Nid yw Hwn yn cau ar Noah, pan ddaw dwfr diluw, nac yn ysgrifenu â'i fys ar lechau'r deng air deddf. Rhed gwaith yr hanesydd cyntaf drwy bob un o'r Pum Llyfr, a cheir dangos yn y benod ar "Haneswyr" na pherthyn efe, nac ychwaith hanesydd yr ail adroddiad, i gyfnod Moses.

(b) Ceir eto ddau adroddiad o hanes y *Diluw*, a da fyddai i'r darllenydd eu darllen gan gadw golwg ar y tabl hwn:

Adroddiad 1.—Gen. vi. 8; vii. 1—5; vii. 7—10 (gan mwyaf); vii. 12; vii. 16, "A'r Arglwydd a gauodd arno ef" a 17; vii. 22, 23; viii. 2 "a lluddiwyd," &c., 3, hyd "a dychwelyd;" viii. 6—12; viii. 13, "A Noah a symudodd," &c.; viii. 20—22.

Adroddiad 2. Gen. vi. 9, 22; vii. 6; vii. 11; vii. 13—16 (ac eithrio "A'r Arglwydd," &c.); vii. 18—21; vii. 24; viii. 1, 2 (ac eithrio "a lluddiwyd," &c.); viii. 3—5 (o "ac yn mhen y deng niwrnod," &c.); viii. 13 (hyd "oddiar y tir"); viii. 14—19; ix. 1—17.

Nid oes eisieu llygad craff i ganfod rhai o'r gwahaniaethau. Yn ol y naill adroddiad, (gorchymynir i Noa gymeryd i mewn i'r arch saith o bob anifail glân, a dau o bob anifail aflân (vii. 2); eithr, yn ol yr ail, dau o bob math ar anifail a gymerir i mewn (vii. 16).* Drachefn, yn ol yr adroddiad cyntaf, ni bu Noa'n yr arch ond am tua 68 o ddyddiau (7 niwrnod cyn dechreu'r diluw; 40 niwrnod o law; ac 21 diwrnod wedi danfon allan o'r gigfran. Ar y cyfrif helaethaf, ni bu ei drig ynddi am fwy na 108 o ddyddiau. Edrycher vii. 4; viii. 6—12. Ond, yn ol yr ail adroddiad, cyfododd y dyfroedd am 150 o ddyddiau (vii.24; viii. 3), a bu Noa'n yr arch am fwy na blwyddyn (vii. 11; viii. 14). Yn y ddau adroddiad hyn eto, ceir yn gyson ddau enw gwahanol ar Dduw; ac nid peth yn awgrymu un awdwr yw hyny chwaith. Abertha Noa i Dduw, ac arogla'r Arglwydd arogl esmwyth, medd yr adroddiad cyntaf, a dyry Duw addewid na fydd iddo mwyach daro pob peth byw (viii. 20—22); ond ni cheir son am aberthu gan yr ail hanesydd. Cadarnheir cyfamod drwy'r bwa a osodir yn y cwmwl (ix. 8—17); a daw'n eglur eto fod hyn yn gyson â syniadau llywodraeth yr hanesydd hwn. Ysgrifenai, lawer ar ol amser Moses, ac nid oes ganddo son am aberthu cyn y cyfamod Moesenaidd.

6. Os dywedir eto: "Y gyfraith a roddwyd drwy Moses," priodol yw gofyn—pa gyfraith? Mae genym yn

---

*Newidiwyd y nifer yn ad.9, mae'n bur degyg, i gydredeg â hyn. Eto erys ad. 2.

nghorff y Pum Llyfr o leiaf dri chasgliad o gyfreithiau, a cheir gwahaniaethau pwysig rhyngddynt â'u gilydd. Nodir yma ychydig enghreifftiau i ddangos hyn, a cheir ymdriniaeth lawnach pan ddeuir i son am Deuteronomium, a datblygiad yr offeiriadaeth.

(a) Dywedir, yn Ecsod xx. 24: "Gwna i mi allor bridd, ac abertha arni'th boeth-ebyrth a'th offrymau hedd, dy ddefaid, a'th eidionau: *yn mhob man lle y rhoddwyf gofadwriaeth o'm henw* y deuaf atat, ac y'th fendithiaf." Eithr gwelir yn Deut. xii. 13, 14, nad oedd caniatad i aberthu mewn mwy nag un lle: "Gwylia arnat rhag poeth offrymu o honot dy boeth-offrymau yn mhob lle a'r a welych: *ond y lle a ddewiso'r Arglwydd o fewn un o'th lwythau di*, yna'r offrymu'th boeth offrymau, ac y gwnai'r hyn oll yr ydwyf yn ei orchymyn i ti." Ai drwy Moses y rhoddwyd y ddau orchymyn?

(b) Dywedir am yr allor, yn Ecsod xx. 25: "Ond os gwnei i mi allor gerig, na wna hi o gerig nadd: pan gotech dy forthwyl arni ti a'i halogaist." Allor bridd oedd yr allor gyffredin i'r poeth offrwm (ad. 24), ond os gwnelid allor gerrig, nid oedd waith cywraint i fod arni. Eithr trown i Ecsod xxvii. 1—8, a chawn ddesgrifiad o allor odidog mewn tabernacl, ar gyfer y poeth offrwm. Yr oedd hon wedi ei gwisgo â phres, ac yr oedd iddi drosolion o goed Sitim, wedi'u gwisgo â phres. "Gwna hefyd iddi bedyll i dderbyn ei lludw, a'i rhawiau a'i chawgiau, a'i chig-weiniau, a'i phedyll tân: ei holl lestri a wnei o bres" (ad. 3). Pell yr ydym yma oddiwrth yr allor seml. Ai Moses orchymynodd wneuthur y ddwy, ac os fellly, paham?

(c) Yn Ecsod xxi. 1—11, goddefir i Hebrëwr fyned yn gaethwas i Hebrëwr arall, a myned yn rhydd yn y seithfed flwyddyn. Ond dywedir yn Lef. xxv. 39, 40, mai anghyfiawn yw trin Hebrëwr fel caethwas. Rhaid ei drin fel gwas cyflog, a'i adael ymaith, nid yn y seithfed flwyddyn, ond yn mlwyddyn y Jiwbili: "A phan dlodo'th frawd gyda thi, a'i werthu ef i ti, na wna iddo wasanaethu'n gaethwas. Bydded gyda thi fel gweinidog cyflog, fel ymdeithydd: hyd flwyddyn y jiwbili y caiff wasanaethu gyda thi." Ac os delir mai ar gyfer bywyd yn Nghanaan y rhoddwyd yr ail gyfraith hon (ad. 2), yna rhaid cyfrif y geiriau a geir yn Deut. xv. 12 yn gwbl ddifudd. Yn nherfyn crwydr yr anialwch, pan oedd y llwythau ar ymsefydlu yn Nghanaan, wele'r hen gyfraith drachefn yn cael ei hadrodd: "Os gwerthir dy frawd, Hebread, neu Hebrëes, i ti, a'th wasanaethu chwe' blynedd, y seithfed flwyddyn, gollwng ef yn rhydd oddiwrthyt."

Ni thâl, ynte, gysoni yna. Nid oedd Moses yn newid ei feddwl ddwywaith wrth ddeddfu i'w genedl, ac wedi'r oll yn gyson âg ef ei hun yn y tri lle.

(d) Yn rhosydd Moab, yn agos i Jericho, ceir yr Arglwydd yn llefaru wrth Moses, ac yn gorchymyn rhoddi i'r Lefiaid o etifeddiaeth y llwythau wyth dinas a deugain. "Rhoddwch hefyd i'r Lefiaid faes pentrefol wrth y dinasoedd o'u hamgylch" (Num. xxxv. 2). Yr oedd llwyth Lefi, felly, wrth ben ei digon. Ond os troir i Ddeut. xii. 12, fe geir, er syndod, nad oedd led troed i'r Lefiaid, yn mhlith eu pobl. Cyflwynir y Lefiad gyda'r tlawd a'r dieithr, i ystyriaeth drugarog y llwythau ereill: "canys nid oes iddo ran nac etifeddiaeth gyd â chwi." Ai Moses ysgrifenodd am y Lefiaid fel hyn, yn rhosydd Moab, gan anghofio'r naill orchymyn yn ffafr y llall, a hyny ond odid yn mhen ychydig ddyddiau?

Dyna ddigon hwyrach wedi'i ddywedyd bellach i brofi nad Moses yw awdwr yr oll o'r Pum Llyfr. Ai Moses yw awdwr rhai adranau ohonynt sydd gwestiwn anhawddach i'w ateb. Ffynai beirniadaeth gymedrol am ysbaid mai efe oedd awdwr y casgliad cyntaf o ddeddfau a barnedigaethau a geir yn Ecsodus xx—xxiii, ac a elwir "Llyfr y Cyfamod"; ond amheuir heddyw i Moses roddi'r gorchymyn yn ngylch ymwrthod â gwneuthur "delw gerfiedig na llun dim ar y sydd

yn y nefoedd uchod" (xx. 4), am mai dyma'r ffordd arferol o addoli Iafe, cyn codi proffwydi'r wythfed ganrif cyn Crist. Perthyn i fywyd yn Nghanan y mae ymadroddion fel "o fewn dy byrth," a throsedd yn erbyn bywyd amaethyddol y deddfir rhagddo yn negfed gorchymyn y llechau (ad. 17). Heblaw hyn, yr oedd gan yr Hebrëaid ddeng air arall, ac arddengys y gorchymynion hyny arwyddion o henaint mwy. Goethe oedd y cyntaf i alw sylw atynt, yn 1773, a cheir hwynt yn Ecsod xxxiv. Ond perthyn y casgliad bychan hwn—casgliad mwy defodol a llai moesol—i fywyd yn Nghanan. Gwyliau bywyd Canan yw'r teirgwyl yn adn. 18, 22—gwyliau bywyd amaethwyr, ac nid gwyliau bywyd bugeiliaid; a myn rhai nad gorchymyn rhag gwneuthur eilunod o *unrhyw* fath a geir yn adn. 17, ond rhag gwneuthur *eilunod tawdd*, tebyg i rai'r Cananeaid a geid o gwmpas i'r gwladychwyr.* Dywed Driver am y 'barnedigaethau' (xxi—xxiii) eu bod yn perthyn i fywyd amaethyddol syml, ac na wnaethai'r rhai y deddfwyd ar eu cyfer gynydd mawr, hyd eto, mewn gwareiddiad.† Dyry awgrym fod i lawer o'r deddfau hyn hynafiaeth mawr; ac wedi eu darganfod o Gôd Chamurabi (casgliad o ddeddfau a yhoeddwyd tua 1900 C.C.) bernir, oddiwrth y petnau tebyg ac anhebyg a geir ynddo i "lyfr y Cyfamod" fod genym yn Ecsod xxi—xxiii osodiadau a ânt yn ol hyd at fywyd cyntefig y Semitiaid oll.‡ A roddes Moses ffurf lenyddol foreuach iddynt na'r hon y ceir hwynt ynddi'n awr, sydd gwestiwn anmhosibl i'w benderfynu. Ar y goreu, nid oes genym ond ychydig iawn o waith llenyddol Moses yn y pum llyfr a elwir wrth ei enw.

Saif mawredd Moses ar dir gwahanol. Efe gafodd weledigaeth o Iafe. Efe, drwy nerth Iafe, ddygodd ei bobl allan o dir y gorthrwm. Efe fu'n broffwyd ac offeiriad i'r llwythau crwydr, yn yr anialwch. Efe wnaeth Iafe, Duw'r waredigaeth, yn Dduw iddynt, a'u hysgogodd i feddianu Canan, ac a roddes iddynt y symbyliad crefyddol cryf a'u gwnelai o'r diwedd, yn un genedl. Hyn a'i gwnaeth yn ddyn mwyaf Israel. O'i waith yn barnu'r achosion a ddygid ato i babell y cyfarfod, dechreuwyd *Tora'r* offeiriaid, neu'r addysg a'r dyfarniad a roddai'r offeiriaid yn y lle santaidd. Nid oedd y *Tora* ar lyfr yn nyddiau Hosea (viii. 12).—C.D. Addysg neu ddyfarniad traddodiadol oedd yr hyn a geid, a thadogid ffynhonell datganiad yr offeiriad i Moses. Nid nepell o'r gwir oedd hyn; ond fel y mynai'r Talmwd fod yr oll o'r Hen Destament yn rhodd Duw i Moses, felly hefyd mynai cyfoeswyr yr Iesu fod pob gair o'r pum llyfr yn waith awdwr y *Tora:* "Y gyfraith a roddwyd trwy Moses." Efe oedd sylfaenydd dyfarniad a chyfarwyddyd y cysegr. Ond, fel y dywed Robertson Smith: "Gallwn alw'r peiriant ager ar enw Watt, er fod i'r peiriant, heddyw, lawer rhan na pherthynai i'w un ef."§

*Gweler Addis, 'Hebrew Religion,' pp. 117—119; H. P. Smith's O.T. Hist., p. 69.

†Introd to Hist. of O.T., p. 36, (ed. 7.)

‡Edr. erthygl Johns, yn Hasting's Dict. of the Bible, Vol. v., pp. 608–612.

§O.T. in Jewish Church, p. 340.

PRIODAS.

RHAGFYR 12, yn Pantdefaid, gan y gweinidog, Mr. Samuel Griffiths, Castellhywel â Miss Mary Jones, Pendre. Y ddau o blwyf Llandyssul. Hir oes a dedwyddwch a'u dilyno.

CONGL YR AWEN.

COF-DELYNEG

I goffadwaiaeth Mary Evans, Glynmeirch, Trebanos.

Ein mam fâd wnaeth ymado—a ni,
Nid oedd neb yn coelio
I hon mor fuan huno,
A braidd heb wybod i'n bro.

A'i holl fryd i gyd i godi—y plant,
Yn eu plith fu'n gweini ;
Eu gwir hedd a garai hi,
Yn enaid llawn o yni.

Un ddengar, hawddgar, oedd hon — awyddus
I foddio'i chym'dogion ;
Ei chariad oedd ei choron,
Heb un brad i boeni 'i bron.

Yn dawel iawn a diwyd,—yn gweled
Y galon mewn adfyd ;
Hawlia'i gwaith wir sail i gyd,
Un fu o werth i fywyd.

Gyda'r da a gaid i'r diwedd,—yn gryf
Mewn gras, a gwirionedd ;
Gwir fawl oedd ei gorfoledd,
Yn nhy Iôr mewn seiniau hedd.

Gwelir eisiau y wraig hylon,—yn hir
Gan hen arwyr Seion ;
O naws oer y ddunos hon,
I haf wyl nef awelon.

Caed o'r bron y plant foddloni,—a
Er budd pob daioni ; [byw
A ddeil i sylweddoli
Gwerth anfarwol freiniol fri.

Trebanos. BRYNFARDD.

EMYN ADGOF

Er Cof am ein diweddar chwaer a mam, Hannah Griffiths, Pontardawe.

Aeth adref mewn gwth o oedran,—y fam
Fwyn, o gywir amcan ;
O faes o glod, i foes glân,
I gynes geinwych Ganaan.

Ar faes ffydd gwnai ymddyddan,—a synwyr
Trwy'r seiniau yn gyfan ;
Gair ini o'i gwir anian,
I roesaw tŷ wrth wres tân.

O honom, hi oedd hynaf,—yn ddiau,
Mor dduwiol a'r goraf ;
Gloes i ni yn eglwys Naf,
I golli'r fenyw gallaf.

O'n geni i ddigonedd,—o godi
I gadair anrhydedd ;
Er byw yn hen, mynd i'r bedd,
Yn dawel yn y diwedd.

Yn ei bwth parchodd Bethel,—o wir fodd,
Carai fyw yr angel ;
Tynypant yn sant llawn sel,
Yn iach yn Seion uchel.

Chwaer anwyl, a châr enaid—oedd Hannah,
O ddoniau bendigaid ;
Ar ei gwên i'r gwir a gaid,
A'i chân heb un ochenaid.

Trebanos. BRYNFARDD.

MARWGOFION.

TACHWEDD 6, yn 62 oed, Mary Evans, Heol Glynmeirch, Trebanos. Collwyd yn yr ymadawedig un o'r menywod mwyaf ymdrechgar, a chariadus fu yn troedio llecyn bychan Trebanos. Mae ei lle yn wag yn y capel (Gosen), yn y cartref, ar yr heol, a manau ereill. Claddwyd y Mercher dilynol, wrth Gellionen. Pregethodd y Parch. Gomer Richards, Trebanos (ei gweinidog). Gweddiodd y Parch. R. Rees, Alltwen yn y capel, a'r Parch. W. Alfa Richards ar lan y bedd. Melus meddwl fod y plant wedi eu dwyn i fyny a'r oll yn dàl cartrefu hapus; a bydded iddynt weled gwynder llwybrau yr hon fu yn fam mor dda yn ei dydd a'i thymor.

TACHWEDD 15, yn 14 oed, Mary Ellen Herbert, Tangraig, Pontshan. Ychydig fisoedd sydd er pan y cawsom y gorchwyl pruddaidd o gofnodi marwolaeth ei mham. Fel y crybwyllwyd, cyfansoddiad gwael oedd i'r ferch fach ieuanc. Bu colli ei hanwyl fam yn achos iddi wangaloni, a bu i afiechyd gwaeth ddod i fewn a daeth y diwedd yn fuan. Yr oedd iddi barch cyffredinol gan y rhai a'i hadwaenai ar gyfrif ei challineb a'i mwyneidd-dra, fel y profodd ei hangladd lluosog. Claddwyd hi y dydd Mercher canlynol yn ymyl ei mham yn Bwlchyfadfa. Gwasanaethwyd yn y tŷ cyn cychwyn gan y Parch. Arthur Thomas, ac yn y Bwlch gan y Parch. E. O. Jenkins, y gweinidog. "Canys eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd."

TACHWEDD 26, yn 73 oed, Mrs. Sarah Jones, Green Court, Llandyssul. Benyw dawel, ddiniwed oedd yr ymadawedig ac iddi air da gan bawb. Claddodd ei phriod yn gynar, ac arni hi y syrthiodd y baich o ddwyn i fynu ei phlant a gwnaeth hyny yn anrhydeddus. Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig. Y dydd Llun dilynol claddwyd yr ymadawedig yn Mhantdefaid, a gwasanaethwyd gan y Parch. Gwilym S. Rees (A.), Seion, lle y buasai yn aelod, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. E. O. Jenkins ac Arthur Thomas. Gadawodd bedwar o feibion i alaru ar ei hol.

RHAGFYR 1, yn 90 mlwydd oed, Hannah Griffiths, Pontardawe, gynt o Tynypant. Y Sadwrn dilynol hebryngwyd ei phabell o bridd i gladdfa Gellionen. Gwasanaethodd y Parch. W. Alfa Richards yn yr amgylchiad lleddf. Cafodd ein hanwyl fam oes anarferol o faith. Yn debyg mae hi oedd yr henaf yn y cylchoedd hyn Mam dda, ddiwyd, oedd modryb Hannah; mam barod, mam hael, mam dyner; mam y gellir cofio am dani flynyddoedd i ddod. Bu yn aelod ffyddlon o eglwys y Graig a Gellionen, hyd ei holaf awr. Caffed y perthynasau a'r cysylltiadau oll nerth i ddal i fyny yn y blinfyd chwerw.

RHAGFYR 5, yn 7, Bell Street, Trecynon, Aberdar, John Edward, maban Edward Shard a'i wraig, yn bum mis oed.

Ere sin could blight or sorrow fade,
Death came with friendly care;
The opening bud to Heaven conveyed
And bade it blossom there.

MANION AC HANESION.

Y CYFARFOD CHWARTEROL. — Cynhelir y cyfarfodydd nesaf yn Mhantdefaid, ond nid ydys eto wedi penderfynu yn derfynol pa bryd, diau mai diwedd Mawrth neu Ebrill. Mewn cyfarfod o gynrychiolwyr a gweinidogion eglwysi Sir Aberteifi, penderfynwyd rhoddi croesaw gwresog i John Harrison, Ysw., Llywydd y Gymdeithas Undodaidd, Llundain, yn nghyd a chyfeillion ereill ddeuant gydag ef yn y cyfarfodydd hyn. Bwriedir dwyn allan raglen arbenig o donau ac emynau Cymraeg a Saesneg yn fuan i'w canu yn y cyfarfod ydd. Gwneir apêl arbenig at ein cynulleidfaoedd yn Ngheredigion ac yn enwedig at ein cantorion i wneuthur y cyfarfodydd hyn yn deilwng o honom. Ymddengys manylion pellach yn ein nesaf.

GAIR AT INDEX.—Diolch am eich geiriau caredig, ac am yr yspryd rhyddfrydig amlygant. Rhoddir croesaw mawr i chwi draethu ffrwyth eich meddwl ar dudalenau'r YMOFYNYDD. Bydd gair oddiwrthych ar sefyllfa pethau yn ngwlad y gorllewin yn dderbyniol gan lawer heblaw eich hen gydnabod o Gefncoedycymer.

DYMUNWN alw sylw ein darllenwyr at bregeth y Parch. M. J. Savage, yr hon sydd newydd ei chyhoeddi yn Gymraeg. Dywed un ei bod y peth goreu ddarllenodd erioed. Y pwnc yw—Yr efengyl yn ol Undodiaeth—a'i hamcan yw profi fod Undodiaeth mewn gwir yn "newydd da." Nid yw ei phris ond ceiniog, trwy'r Post, 1½c. Anfonir dwsin yn rhad trwy'r Post am swllt.

Y GRAIG A GELLIONEN. — Nos Iau, Tach. 5, yn Neuadd y Rechabiaid, Pontardawe, buwyd yn gwrando araeth y Parch. Rhondda Williams, Bradford, ar "Gymdeithasiaeth a Chrefydd"; ac yn wir, dyna'r araeth decaf fuom yn wrando ers blynyddau. Deliodd ar faterion o safbwynt y gwir feirniad.

ENGLYN Y "VAN" ETO.—Dymuna Alfa hysbysu y darllenwyr mai Mri. Ll. J. Williams (Hector), Gwasg Gomer, Llandyssul, a G. J. Davies (Bute a Gwlithyn), Penlan, Pencarreg, Lampeter, ydynt enwau priodol y buddugwyr ar englyn y *Van*. Danfonwyd y gwobrwyon.

DA genym longyfarch y chwaer ieuanc, Miss M. A. Thomas, Gellinedd, yn dod allan yn oreu ar yr adroddiad yn yr eisteddfod gynhaliwyd yn y lle uchod, Sadwrn, Tach. 14. Dringwch rhagoch.

PENYBONT-AR-OGWY. — Nos Fercher, yr 11eg o Dachwedd cynaliwyd *Social Tea* i longyfarch Mr. T. Jones, Council Schools, Bridgend, ar ei briodas â Miss Kate Thomas, hefyd o'r Council Schools, ac o'r Ewenny. Y mae Mr. Jones yn frodor o ardal y Cribyn yn Ngheredigion. Cafodd ei eni a'i fagu yn Caerfoel, lle y mae ei rieni eto'n byw. Ar ol gyrfa lwyddianus yn Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd, ymsefydlodd Mr. Jones yn Bridgend: ac y mae oddiar hyny hyd yn awr wedi bod yn ffyddlon iawn gyda'r achos Undodaidd yn y yn y lle. Cyflwynodd Miss Katie Rees, merch y gweinidog, ar ran yr eglwys iddo depot arian, ac arno ysgrif gymhwys, fel arwydd o edmygedd a dymuniad da am eu dyfodol, ac hefyd fel cydnabyddiaeth o wasanaeth gwerthfawr Mr. Jones yn yr eglwys a'r Ysgol Sul yn y gorphenol. Cafwyd llawer araeth longyfarchiadol wresog, ac atebodd Mr. Jones yn fedrus a byr. Cafwyd hefyd amryw ddetholiadau cerddorol ar yr Iodon Gramophone. Treuliwyd noson ddifyr a dedwydd.

CEFNCOED.—Nos Fawrth, y 10fed o Dachwedd cynaliwyd darlith yn y capel, tan nawdd y Gymdeithas Ddiwylliadol. Y cadeirydd oedd Mr. Cledwyn Davies, mab henaf gweinidog yr eglwys, yr hwn hefyd yw is-lywydd y Gymdeithas. Llyw-

yddodd yn ddirodres a medrus dros ben, gwnaeth araeth gadeiriol ddestlus, fer, a phob gair yn ei le. Gan mai dyma ymddangosiad cyntaf ein brawd ieuanc fel cadeirydd cyhoeddus llongyfarchwn ef, a hyderwn yr aiff yn y blaen i fod yn ddefnyddiol yn y winllan ag y mae ei dad wedi bod yn llafurio am dros 30 mlynedd ynddi bellach. Y darlithydd oedd y Parch. David G. Rees, Penybont-ar-ogwy; a'r testun oedd:—"Leo Tolstoy: Prophwyd Cyfiawnder a'i Ddamhegion." Yr oedd yno gynulliad da. Mwynhawyd y ddarlith yn rhagorol.

"Y GENINEN" AM Y FLWYDDYN NESAF.—Dyma fydd rai o'r pynciau yr ymdrinir â hwynt yn ystod y flwyddyn, a rhai o honynt eisoes ar ganol gael eu trafod ynddo:—"Llenyddiaeth Gymreig y Ganrif Bresenol: Pa un ai Gwella ai Dirywio y mae?" "Yr Iaith Gymraeg: Pa un ai Mantais ai Anfantais i Foes a Chrefydd Cymru fyddai ei pharhau?" "Cyffesion a Chredoau Enwadol: Ai rhaid wrthynt?" "Pwlpud Cymru: Pa un ai Cryfhau ai Gwanhau y mae ei Ddylanwad?" "*Enwadau Cymru: A ydynt yn gweithredu'n gyson a'u Credoau?*" (Y mae llenorion o fri, Eglwysig ac Ymneilldduol, wedi ymgymeryd â thraethu eu llên, bob un ar ei eglwys a'i enwad ei hun.) Hefyd, yn y rhifynau dyfodol fe barheir yr erthyglau ar *Fywyd ac Athrylith Enwogion Ymadawedig*. Llongyfarchwn gyhoeddwr "Y Geninen" ar ei ragolygon i allu cynysgaeddu darllenwyr y cylchgrawn yna â thrysorau llenorol a deallol, henafol a diweddar, y flwyddyn nesaf, gwerthfawrocach nag erioed. Parheir yn, ac ychwanegir at, yr ymdrechion i gasglu a chyhoeddi *hen weddillion pridwerth*, yn hanesyddol, hynafiaethol, chwedlonol, beirniadaethau, llythyrau oddiwrth enwogion at eu gilydd, &c., a'r cyfan yn dwyn perthynas â Chymru, Cymro, neu Gymraeg. Bydd "Y Geninen" hefyd yn parhau i fod yn *gronfa o gynyrchion Eisteddfodol* gwerthfawr a dyddorol, fel nad elo llawer o'n trysorau llenyddol mwyach ar ddisberod.

CAPELYBRYN. — Yn ddiweddar anrhegwyd yr eglwys a ymgyferfydd uchod, ag awrlais a Beibl gwerthfawr. Y blaenaf gan Arolygydd a Mrs. Thomas, Pontypridd, a'r olaf gan y Parch. J. J. a Mrs. Williams, Pentre Ystrad, er cof am y diweddar John Williams, Tanygraigfach, eu tad a'u tad-yn-nghyfraith. Gobeithir y derbyniant ddiolchgarwch gwresocaf yr eglwys a'i gweinidog, yn yr un ysbryd brawdol ag y darfu iddynt gyfranu y rhoddion, ac y bydd i enw John Williams fel un o sylfaenwyr yr achos yn y lle, ac un a ddygodd fawr sel drosto, gael ei drosglwyddo i lawr i'r oesau a ddel.

CHWEDLAU ESOP.—Yr wyf wedi bod yn talu ymweliad a hwy eto, am yr ugeinfed waith, ac wyddoch chi, synant fi fwyfwy bob tro. Cynwysant fyd o wybodaeth—ac o ddoethineb y bydd da i rai ddal sylw arno. Mor gywir darlun mae'n dynu o'r brodyr sydd yn mynd o amgylch y wlad ac yn ymffrostio yn nghylch y gwaith wnant hwy yn y Senedd. Hwynthwy—nid y 672 aelodau—ond hwynthwy sydd yn gwneuthur yr holl orchestwaith. Disgynodd y gilionen ar werthyd olwyn y *motor* ac meddai hi, "Welwch chi'r fath lwch ydw i'n godi! Wrth gwrs, y gilionen sydd yn achosi'r llwch i gyd!!—T.L.R.

ACHWYNA y Parch. J. Hamer Lewis, y *Diocesan Inspector*, fod addysg grefyddol yn rhyw ysgol [Eglwysig?] yn cael ei roddi gan un yn dal syniadau Undodaidd, a dywed iddo fentro beio'r awdurdodau am ganiatau y fath gamwri!

MAE Paul yn cynghori'n dda pan y gorchymyna i'r Ephesiaid gadw undeb yr ypsryd yn nghwlwm tangnefedd; ac nid drwg sylw y Dr. Samuel Clarke,—Er y dichon undeb fod yn dda, eto nad yw ddim yn ddymunol cael Undeb Opiniwn yn nghwlwm Anwybodaeth nac Undeb Proffes yn nghwlwm Rhagrith.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

CHRISTR. THOMAS & BROS., Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS, & BROS., LTD., BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Outfitter, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand. Juvenile and Boys' Suits a Speciality.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

Funeral Wreaths, Crosses, Anchors, Harps, Lyres,

And other designs.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

HARRY COYSH,

FLORIST AND SEEDSMAN,

NOTT SQ., CARMARTHEN.

Telegrams—Harry Coysh, Carmarthen

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq. W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W. A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

THE GREAT
WINTER
CLEARANCE
SALE

AT
BEN EVANS & CO'S

Commences on Saturday, January 9th, 1909,
and will be continued daily during the month.

Exceptional Bargains in High Class Drapery,
Showroom, Fancy & Furnishing Goods.

BEN EVANS & CO. LTD. "THE HOUSE FOR QUALITY." SWANSEA.